# **Rownd yr Horn**

Daeth amser i ffarwelio,
Ag annwyl wlad y Cymro,
Gan sefyll ar hen dir y ‘Werddon fras.
Fe gododd gwynt yn nerthol,
Y môr â'i donnau rhuthrol,
Gan olchi dros ein llestr annwyl las.

Dewch, Gymry glân, i wrando ar ein cân.
Fel bu y fordaith rownd yr Horn,
Rownd yr Horn,
sef y trydydd dydd o'r wythnos
ychydig cyn y cyfnos,
Gan basio ger glân creigiau glannau Môn.

Rwyf wedi mynd a dwad
mewn llongau hardd eu gwelad,
Ond dyma'r wyrcws benna gefais i:
Does yma ddim i'w fwyta,
ond gwaith sy’ llond ein breichia’
O calon, pwy all beidio bod yn brudd.